

Brig y Goeden



DAN DDU

SUSAN GATES



DAN DDU

SUSAN GATES

Lluniau gan Robert McPhillips



DRAKE




Dan Ddu y Seithfed

“Mae’r ci yn dod gyda’r tŷ,” meddai’r coedwigwr wrthym ni. “Os ydych chi ei eisiau.”

Edrychais ar y ci. Roedd e’n fawr a mor ddu â’r nos. Roedd ganddo lygaid brown meddal fel llygaid carw. Ac wrth i fi ei anwesu, crynodd drwyddo.

“Plis Dad, allwn ni ei gadw?” crefais.

Roedd Mam, Dad a finnau newydd symud i'n tŷ newydd. Bwthyn bychan oedd e ar gyrion coedwig drwchus. Roedd swydd newydd gan fy nhad - warden y goedwig.



“Soniodd neb ddim byd am gi,” meddai Mam yn amheus. “Pa fath o gi yw e?”

“Milgi rasio,” meddai'r coedwigwr. “Roedd e'n arfer perthyn i Dei Bach, oedd yn byw yma o'ch blaen chi. Ond mae e mewn cartref hen bobl nawr.”

Crynodd y ci ac edrych i fyny arnaf â'i
lygaid mawr, meddal.



“Plis, Mam, plis, Dad. Plis, plis, plis -”

“Bydd dawel am funud, Rhodri.”

Chwifiodd Dad arnaf i fod yn dawel. Yna gofynnodd i'r coedwigwr: “Beth fydd yn digwydd i'r ci yma os nad ydyn ni'n ei gymryd?”

Cododd y coedwigwr ei war. “Wel, dwi ddim yn nabod neb arall fydd ei eisiau. Mae e wedi chwythu’i blwc. Dyw e ddim yn ennill rasyys ragor. Roedd Dei Bach yn mynd i gael gwared ohono beth bynnag.”



Gwthiodd y ci ei drwyn oer i'm llaw.
“Dad, Dad,” plediais i. Tynnais yn ei fraich. “Dwi eisiau'r ci yma. Dwi'n torri fy mol o'i eisiau.”

Gallai Dad weld fy mod i bron â drysu.
“Iawn, fab,” meddai e. “Paid â
chynhyrfu. Ond bydd yn rhaid i ti fynd â
fe am dro, cofia.”

“Wrth gwrs y bydda i! Diolch, Dad.
Rwyd ti’n wych, Dad!”

“Bydd angen llawer o ymarfer arno fe,”
meddai’r coedwigwr.

Dechreuodd gerdded ymaith, i mewn
i’r coed pin tywyll.



“Arhoswch funud!” gwaeddais ar ei ôl.
“Beth yw ei enw?”


“Dan Ddu!” gwaeddodd ’nôl. “Dan Ddu y Seithfed yw e. Roedd Dei Bach yn berchen ar chwe milgi o’i flaen e. Ac roedd e wedi enwi pob un yn Dan Ddu.”

Cofleidiais fy nghi o gwmpas ei wddw.

“Wna i ddim cael gwared ohonot ti,” dywedais i wrtho fe. “Dim ots gen i nad wyt ti’n ennill ragor.”

A nadodd Dan Ddu gan lyfu fy llaw.





Llygaid Tanbaid

Y noson honno, allwn i ddim cysgu.
Roedd y goedwig yn gwneud llawer o
synau rhyfedd. Doeddwn i ddim wedi
sylwi arni o'r blaen- sut roedd y coed yn
gwichian ac yn siffrwd ac yn griddfan.

“Tw-www!” Hwtiodd tylluan.

“Ydi hi mor arswydus â hyn bob
amser, Dan Ddu?”

Roedd e wedi ymdorchi ar fy mat, yn
crynu yn ei gwsg.


Yna clywais sŵn newydd: “Oow-oow-
oow!” Roedd e'n swnio'n debyg i gi yn
udo.

Dechreuodd clustiau Dan Ddu symud yn wyllt. Yn sydyn, agorodd ei lygaid led y pen. Llamodd i fyny a rhedeg at ddrws yr ystafell wely. Dechreuodd ei grafu, yn wyllt i fynd allan. Roedd e'n gwneud synau iepian bach.



“Beth sy’n bod? Dwyt ti ddim eisiau mynd allan. Mae’n oer ac yn dywyll y tu allan.”

Gallwn glywed blew fy ngwar yn codi’n donnau iasoer.



Roedd mwy nag un ci y tu allan!
Roedd cŵn eraill yn udo nawr:
“Oow-oow-oow!” Udiadau ofnadwy, unig
fel plant ar goll yn y nos yn crio am eu
mamau.


Allwn i ddim peidio â chrynu. Teimlai
f’asgwrn cefn fel talp o rew. Roedd y sŵn
mor iasol ac unig.

“Dan Ddu, wyt ti’n gallu clywed
hwnna?”

Roedd e wedi’i glywed yn sicr ddigon.
Aeth e’n wallgof!

Roedd ei bawennau'n crybino'r pren.
Roedd e'n daer i fynd allan, fel petai e
eisiau ymuno â nhw. Ond doeddwn i
ddim yn mynd i agor y drws.

“Cer ymlaen, cymer gip cyflym allan
drwy'r ffenestr,” heriais fy hunan. “Dydi
e'n ddim byd, siwr o fod.” Agorais
fymryn ar lenni fy ystafell wely.





Roedd y goedwig yn dywyll ac yn
wyllt. Ac yn edrych allan ohoni, rhwng y
coed, roedd chwe phâr o lygaid. Llygaid
cochion, tanbaid oedd yn rhythu tuag at
fy ffenestr. Symudon nhw ddim.
Arhoson nhw yno, yn disgleirio yn y
tywyllwch. Fel petaen nhw'n aros am
rywbeth...

Chwipiais y llenni ynghau.

“Na, Dan Ddu, dwyt ti ddim yn mynd allan!”

Cydiais ynddo. Straffaglodd ychydig. Yna crynodd a nadu yn fy mreichiau.

“Aros di yma gyda fi,” dywedais i wrtho fe.

Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n gallu syrthio i gysgu. Roedd cymaint o ofn arna i. Ond y funud nesa roedd hi'n fore. Ac roeddwn i'n deffro ar lawr fy ystafell wely, yn oer ac yn brifo dros of i gyd, â Dan Ddu wedi claddu ei drwyn yn fy llaw.





‘Dylai’r Ci yna fod yn Farw’

Amser brecwast, meddai Dad: “Rhodri, pam nad ei di â Dan Ddu am dro yn y goedwig?”

Ond dywedais i, “Dwi’n credu y bydd yn well ganddo’r caeau.”

Yna dywedais, “Dad, oes llawer o greaduriaid yn y goedwig? Edrychais allan drwy fy ffenest neithiwr. Gwelais i’r llygaid yma...”

Doedd hyn ddim fel petai'n syndod i Dad. Dim ond codi ei war wnaeth e. "Gallai fod yn unrhyw beth. Llwynogod, ceirw, cwningod, hyd yn oed tylluanod. Mae llawer o greaduriaid gwyllt yn y goedwig."

Teimlais ychydig yn well. Dywedais y drefn wrthyf fi fy hun. "Y llipryn!" dywedais. "Yn cael dy ddychryn gan chwe chwningen!"

Ond dywedai llais bach y tu fewn i 'mhen: "Does gan gwningod ddim llygaid tanlyd."



Dywedais wrth Dad: "Ydi cwningod yn udo? Fel mae cŵn yn gwneud?"

Cododd ei aeliau: "Wyt ti o *ddifri*?"

Ar ôl brecwast galwais, “Dere ’mlaen, boi,” ar Dan Ddu.

Wrth i fi wisgo fy nghot, dywedodd Dad, “Rhodri, os wyt ti’n mynd i’r goedwig, gwylia’r hen weithfeydd plwm. Dangosais i’r safle iti. Wyt ti’n cofio? Y twnel yna â grid haearn dros ei geg? Paid â mynd mewn fanna. Iawn? Paid hyd yn oed â meddwl amdano.”

Dywedais i: “Iawn, Dad.”



Doeddwn i ddim yn bwriadu mynd i mewn i’r goedwig. Dim ffiars o beryg. Ond nid yr hen weithfeydd plwm oedd yn codi ofn arna i.

“Hwyl, Dad.”

Rhedodd Dan Ddu a finnau allan o'r tŷ gyda'n gilydd.

Nawr, dwi ddim yn gachgi. Beth dwi'n ei feddwl yw, does dim llawer o bethau yn codi ofn arna i. Heblaw am gael sws blewog gan fy hen fam-gu. Neu'r tro roedd yn rhaid i fi wisgo crys ffrils a dici-bô melfed i briodas fy modryb. Ond roedd ofn arna i y bore hwnnw. Byddech chi'n disgwyl y byddai golau dydd yn gwneud i bethau ymddangos yn llai bwganllyd. Ond roedd y goedwig yna'n dal i edrych yn fygythiol ac yn dywyll.



Beth oedd hwnna? Neidiais am fy mywyd. Ond dim ond cysgodion tywyll yn crynu dan y coed pin oedden nhw.

“Dere ’mlaen,” dywedais i, gan dynnu ar goler Dan Ddu. “Dwyt ti ddim eisiau mynd i mewn i fanna.”




Rasion ni dros y caeau. Roedd Dan Ddu yn rasiwr penigamp. Roedd e mor sionc a chyflym. Rhedodd e mor gyflym roedd yn amhosibl ei weld yn glir! Yna safodd ar y brêc. Troellodd yn gyflym, fel petai ar gefn sglefrfwrdd.

“Dan Ddu, rwyf ti’n seren!” bloeddiais
ar ei ôl.

Allwn i ddim cadw i fyny gydag e, dim
hyd yn oed petawn i’n rhedwr o safon
ryngwladol!

Dechreuais redeg eto. Roeddwn i’n
chwerthin ac roedd fy ngwynt yn fy nwrn
wrth geisio cadw i fyny gydag e pan,
bwmp! Rhedais yn syth i mewn i rywun.





“Mae’n ddrwg gen i!
Mae’n ddrwg gen i!”

Y coedwigwr oedd e. Fe oedd wedi dod â Dan Ddu i’n tŷ ni. Ond doeddwn i ddim yn ei hoffi e ryw lawer serch hynny.

“Mae’r ci’n rhedeg yn dda,” meddai, gan amneidio i gyfeiriad Dan Ddu.

Mwmiais rywbeth, dim ond er mwyn bod yn gwrtais.

Yna chwaddodd, rhyw chwaddiad creulon. “Cafodd y ci yna ddihangfa lwcus,” meddai. “Yr union ddiwrnod y cafodd ei ruthro i’r ysbyty, roedd Dei Bach yn mynd i gael gwared ohono fe.”

“Beth, ei roi e i rywun arall?”

“Nage, cael gwared ohono fe. Yn union fel y gwnaeth e gyda phob Dan Ddu arall.”

“Beth wnaeth e â nhw?”



“Wel, fel hyn oedd hi. Pan stopiodd Dan Ddu y Cynta ennill -pan oedd e tua thair neu bedair oed - aeth Dei Bach ag e i'r goedwig. Bwydodd e gig gwenwynig iddo fe.

“Yna prynodd Dan Ddu yr Ail i gymryd ei le. Yna pan ddechreuodd y ci hwnnw golli -”

Doedd dim rhaid iddo fynd yn ei flaen. Roeddwn i wedi deall. Chwe Dan Ddu, bob un wedi'u harwain, fesul un, i mewn i'r goedwig. A bu bron i fy nghï i gael ei gymryd hefyd.

“Dylai'r ci yna fod yn farw erbyn hyn,” meddai'r coedwigwr, gan amneidio ar fy Dan Ddu i. “Byddai wedi bod, petai Dei Bach wedi cael ei ffordd.”



Gyrrodd hynny ias trwyddo i a gwneud imi deimlo'n sâl. Daeth pob math o luniau hunllefus i 'mhen.

Gwelais Dei Bach yn mynd â fy Dan Ddu i i mewn i'r goedwig. Ac yn dod allan ar ei ben ei hunan.

A gwelais i'r chwe phâr o lygaid coch, bob un yn rhythu allan, fel petaen nhw'n aros am rywbeth.

“Paid â phoeni,” dywedais wrth fy Dan Ddu i. “Rwyt ti'n fyw. Aeth Dei Bach ddim â thi i mewn i'r goedwig. A nawr rwyt ti'n perthyn i fi.”

A chrynodd Dan Ddu a swatio'n agos ata i.





Yr Udo

Trwy gydol y diwrnod hwnnw roeddwn i'n ofni'r nos. Roeddwn i'n dweud wrthyf fi fy hun dro ar ôl tro: "Cwningod welaist ti neithiwr. Llwynogod neu dylluanod welaist ti."

Ceisiais i gredu hynny. Erbyn y nos roeddwn i bron wedi argyhoeddi fy hunan.

A phan oeddwn i yn fy ystafell wely gyda Dan Ddu, roeddwn i hyd yn oed yn ymlacio yn darllen comig. Yna -

"Oow-oow-oow!"

Dechreuodd yr udo yna eto.

Pam na allai Mam a Dad ei glywed?
Doedd dim smic o sŵn yn dod o'u
hystafell wely nhw. Doedd hi ddim mor
hwyr â hynny oedd hi? Doedd bosibl eu
bod nhw'n cysgu'n barod?

Clywodd Dan e. Cododd ei glustiau
fflic, fflic. Ac yna cododd ei ben du. A
dechreuodd udo 'nôl.



Atebodd yr udiadau o'r goedwig:
“Oow-oow-oow!”

Roedd e'n sŵn mor ddigalon ac unig.
Fel petai diwedd y byd wedi cyrraedd.

“Bydd yn dawel, Dan Ddu. Pam rwyt ti’n gwneud y sŵn erchyll yna?”



Yn sydyn, cyn i fi allu cydio ynddo fe, agorodd e’r drws â’i drwyn a saethu i lawr y grisiau.


“Twpsyn! Rwyt ti’n dwp, Rhodri!” sgrechiais arna i fy hunan y tu fewn i fy mhen. “Chaeaiſt ti mo’r drws yn iawn!”

Rhedais i nerth fy nhraed ar ôl Dan Ddu.

Roedd fy ymennydd fel traed brain -
allwn i ddim meddwl yn glir. Felly gwnes i
rywbeth twp arall. Edrychais o'm cwmpas
- allwn i mo'i weld e. Meddyliais, "Mae'n
rhaid ei fod wedi mynd allan." Felly
agorais ddrws y ffrynt !



Am dwpsyn! Hedodd e heibio i fi fel
saeth. Roedd e y tu fewn trwy'r amser!
Roedd e'n anelu'n syth am y goedwig.
Rhywsut, gwyddwn mai dyna a wnâi.



Roeddwn i'n crynu nawr. Yn wirioneddol mewn panig. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud.

“Dan Ddu! Dere 'nôl!”

Ond arhosodd e ddim. Diflannodd e rhwng y coed. Ac - o na - credais i fi weld fflach llygaid tanllyd! Yna roedden nhw wedi diflannu hefyd. Roedd hyd yn oed yr udo wedi peidio. Roedd popeth yn dywyll ac yn ddistaw.

“Felly beth rwyt ti'n mynd i'w wneud nawr, Rhodri?” holais fy hunan.



Dan Warchae!

Wrth gwrs doedd gen i ddim ddewis, nac oedd? Roedd yn rhaid imi fynd i chwilio amdano fe. Roedd yn rhaid imi fynd ar ôl fy nghi. A gwyddwn i erbyn hyn beth roedd y llais bach yn fy mhen wedi bod yn ei ddweud wrthyf trwy gydol y dydd. Fod y llygaid yna ddim yn perthyn i dylluanod nac i gwningod. Na llwynogod hyd yn oed.

Crensh, crensh. Nodwyddau'r pinwydd dan fy nhraed oedd hynny. Cerddais tuag at y goedwig gan adael iddi fy llyncu.



Roedd hi mor dywyll â'r fagddu y tu mewn. Gallwn glywed fy hunan yn anadlu. Swniai'n wirioneddol uchel.

Beth oedd hwnna? Clic, clic, clic. Fy nannedd oedd yn rhincian.

Yna clywais rywbeth y tu ôl imi. Ysgyrniad ysgafn, fel petai rhywbeth yn fy nilyn.

“Grrrr.”

Trois yn sydyn. “Dan Ddu?” sibrydais. “Dere yma boi.”

Ond doedd dim golwg o fy nghi. Dim trwyn oer yn gwthio i mewn i fy llaw. Sleifiais ymlaen.



Daeth ysgyrnygiad o gyfeiriad arall.

“Grrrr!”


Wedyn un arall.

Roeddwn i wedi fy amgylchynu.

Gallwn weld llygaid cochion a ffurfiau milgwn du, yn sleifio tuag ata i.

Roeddwn i fel delw - allwn i ddim symud. Ond yn sydyn roedd fy meddwl yn glir fel ciwb iâ. Roeddwn i'n deall fy sefyllfa yn union.

Roeddwn i wedi cerdded i ganol haid o Danau Duon. Ysbrydion cŵn yn y goedwig. Roedden nhw wedi bod yn disgwyl i fy nghi i ymuno â nhw. Roedden nhw wedi bod yn aros iddo ddod.



Galwais ar fy nghi, “Dan Ddu!” Ond allwn i mo’i nabod ynghanol y lleill.

Roeddwn i’n crynu fel petai gen i esgyrn rwber. Ond des i o hyd i nerth o rywle. Gwaeddais i mewn i’r tywyllwch.

“Dwi’n gwybod fod Dei yn *mynd* i gael gwared ohono. Ond chafodd e mo’r cyfle. Iawn? Felly does dim diben ichi loetran yma ddim mwy! Dyw e ddim yn perthyn i chi, ysbrydion cŵn. Dyw e ddim yn farw! Gyda fi mae ei le!”



Geiriau dewr. Ond doeddwn i ddim
yn teimlo'n ddewr am yn hir. Roedd y
Danau Duon annaearol yn nesáu ata i!
Gallwn weld eu dannedd gwynion!
Fanno! - na- fanno! Roedden nhw ym
mhobman o'm cwmpas!



Rhedais. Peth twp i'w wneud, rhedeg.
Dych chi ddim yn gallu rhedeg yn gynt na
milgwn. Ond rhedais i beth bynnag, gan
fwrw i mewn i lwyni, syrthio, straffaglu
i'm traed, rhedeg ymlaen.

Yr Hen Weithfeydd

Yna, *clonc*, bwrais i mewn i grid haearn.
Bwrais i fe mor galed nes iddo syrthio
drosto. O'r diwedd roeddwn i'n gwybod
ble roeddwn i.

“Yr hen weithfeydd!” meddai llais yn
fy mhen. Roedd y grid wedi cael ei bwysu
dros y fynedfa.


“Cer i mewn!” sgrechiodd y llais.
“Cuddia! Cuddia! Cer i mewn!”

Rhedais i mewn i'r twnel.

Yn syth bin roeddwn i mewn
tywyllwch dudew. Brwsiodd rhywbeth yn
erbyn fy wyneb.

“Cer o 'ma!”

Yn wyllt, brwsiais i fe o'r neilltu. Ond
dim ond rhedyn oedd yno, yn tyfu ym
mynedfa'r twnel. Gwrandawais. Allwn i
ddim clywed dim. Heblaw fy nghalon fy
hunan yn curo. A drip, drip, drip dŵr ar
walydd y gwaith.



Baglais ychydig gamau ar hyd y twnel.
Yna fflachiodd rhybuddion Dad i
'mhen. "Mae'r hen waith plwm yna'n
beryg bywyd. Rydych chi'n cerdded ar
hyd y twnel. Rydych chi'n meddwl eich
bod chi'n iawn. Yna'n sydyn mae siafft
ddofn yn union o dan eich traed. Os
syrthiwch chi mewn i honna, gallech
syrthio am hanner milltir!"



"Jest arhosa fan hyn," dywedais wrthyf
fi fy hun, gan wthio yn erbyn y walydd
llysnafeddog. "Paid â mynd i mewn ddim
pellach. Byddi di'n iawn. Os wyt ti jest
yn aros fan hyn."

A byddwn i wedi bod yn iawn. Ond gwelais i rywbeth, 'nôl ar bwys mynedfa'r gwaith. Beth oedd e? Gallwn deimlo croen gŵydd yn codi arna i. Roedd llygaid cochion yn llosgi yn y tywyllwch - yr haid o Danau Duon. Roedden nhw wedi dod o hyd imi, wedi fy synhwyro. Ac roedden nhw'n dod i mewn i'r gwaith i gael gafael arna i.



Es i banic llwyr. Rhedais fel anifail
sy'n cael ei hela. Rhedais yn bellach i
mewn i'r gwaith. Doedd dim ots gen i,
unrhyw beth er mwyn dianc.

Yna baglais dros graig. Chwap!
Syrthiais i'n bendramwnwgl.

“O na! Gollyngwch fi. O, na!”



Atseiniodd fy mloeddiadau i fyny ac i lawr y twnel. Roedd un ohonyn nhw wedi cydio ynddo i! Gallwn i deimlo ei ddannedd, yn tynnu ar fy jîns. Ceisiodd fy nhynnu 'nôl wysg fy nghefn. Cropiais i'r ffordd arall, yn crafangu yn y creigiau â'm dwylo. Yna'n sydyn roedd fy nwylo'n cydio mewn awyr iach! Roedd gwagle ble dylai llawr y twnel fod. Roeddwn i'n union uwchben siafft y gwaith.




Yna gwthiodd trwyn oer i'm hwyneb.

“Dan Ddu! Bachgen da, bachgen da!”

Roeddwn i'n beichio crio mewn
rhyddhad.

Roedd e wedi fy nhynnu 'nôl, wedi fy
rhwystro rhag syrthio i lawr y siafft.

Roedd e wedi achub fy mywyd.




Tynnais fy hunan 'nôl o'r ymyl.
Clonciodd carreg i mewn i'r siafft.
Cymerodd hydroedd cyn iddi daro'r
gwaelod.

Yna clywais sŵn arall.

“Grrrr!”

Roedd y lleill yn dod. Roedden nhw wedi fy nghornelu. Doedd gen i unman i fynd. Unman i’w guddio. Ceisiais godi. Saethodd poen chwilboeth trwy fy nghoes. Arhosais yna yn fy nghwrcwd, yn gwylio eu llygaid cochion yn dod yn nes ac yn nes.



Gallwn weld eu siapiau llechwraidd, yn dduach na düwch, yn llithro i lawr y twnel tuag ata i.

Roedd Dan Ddu yn crynu yn fy ymyl. Nadodd e.

“Ust, boi.”

Roedden nhw yma. Roedden nhw'n gwybod fy mod i wedi fy anafu. Gwibion nhw ata i yn barod i ymosod.






Rhuthron nhw i mewn - llygaid yn fflamio, dannedd yn clecian. Rholiais i'n belen fel draenog gan guddio fy mhen â'm dwylo. Meddyliais, "Maen nhw wedi fy nal i nawr."



Yn sydyn, roedd ci arall yn cyfarth. Yn sefyll wrth fy ymyl, yn fy amddiffyn ac yn cyfarth i'r tywyllwch. Swniai'n ffyrnig ac yn ddewr fel llew. Dan Ddu y Seithfed oedd e. Fy Dan Ddu i.

Roedd e'n dychryn y chwech arall! Ystyr y cyfarthiadau hyn oedd; "Ewch o'ma, ysbrydion! Dwi ddim yn perthyn gyda chi! Dwi'n perthyn yma gyda Rhodri!"

Peidiodd Dan Ddu â chyfarth.
Distawrwydd. Y cyfan y gallwn ei
glywed oedd dŵr yn diferu.



Sythais fy hunan, yn araf iawn. A
chraffais heibio i fy Dan Ddu i mewn i'r
tywyllwch y tu hwnt iddo.

Roedd yr haid ysbrydion yno o hyd.

Am ychydig eiliadau gwylion nhw ni.
Ond ddaethon nhw ddim yn nes. Yna,
fesul un, roedd yn ymddangos fel petaen
nhw'n crino. Crebachodd eu llygaid llogg
i flaenau pinnau cochion. Yna diflannon
nhw, fel ysbrydion yn cael eu sugno i
mewn i botel.

“Maen nhw wedi mynd!” dywedais
wrth Dan Ddu. “Rwyt ti'n gi dewr. Rwyt
ti'n arwr!”





Pan geisiais godi eto ebychais, “Ow!” a bu bron imi syrthio eto. Roedd yn rhaid imi bwysu ar Dan Ddu. A, rywsut, gyda’n gilydd, llwyddon ni i fynd allan o’r gwaith.

Yn y goedwig lluniais i ffon fagl o gangen a herciais ’nôl adre, gyda Dan Ddu ffyddlon yn fy ngwarchod yr holl ffordd.



Yn y Goedwig

Fore trannoeth meddai Mam, “Rhodri, oes coes dost gennynt ti?”

“Beth, fi? Wrth gwrs does dim,” dywedais i, gan geisio peidio â gwingo.

A herciais allan drwy’r drws gyda Dan Ddu.

“Alla i ddim rhedeg yn y caeau gyda ti heddiw,” dywedais wrtho.

Ond doedd e ddim yn anelu am y caeau. Roedd e’n anelu am y goedwig!

Yn syth, crafangodd fy mol yn dynn.

Herciais ar ei ôl gan weiddi, “Na, Dan Ddu, paid â mynd i mewn i fanna.

Arhosa gyda fi!”

Rhy hwyr. Llithrodd fel ysbryd i mewn i'r goedwig. Es i ar ei ôl, gan hercio mor gyflym ag y gallwn, yn clatsio trwy ganghennau, gan weiddi ei enw, “Dan Ddu! Dan Ddu!”



Teimlais yn dost gan anobaith.

Roeddwn i wir wedi credu iddo ddewis aros gyda fi. Roeddwn i wir wedi credu hynny.

Yna stopiais.

“Dan Ddu, dyna lle rwyd ti!”

Daeth at f’ymyl yn dawel gan anwesu fy llaw.

Edrychais o’r cwmpas. Roedden ni mewn llannerch. Roedd adar mân yn trydar. Roedd golau’r haul yn dawnsio o’r cwmpas. A wyddoch chi beth? Doedd y goedwig ddim yn teimlo’n arswydus na pheryglus o gwbl.

Teimlai’r goedwig fel petai’n perthyn i ni. Teimlai fel petai’r ysbrydion yna wedi rhoi’r gorau i aros a’u bod wedi gadael am byth.

Ddywedais i fyth wrth Dad na Mam am yr hyn oedd wedi digwydd.

Meddylwch, sut gallwn i hyd yn oed ddechrau? Byddwn i’n dweud rhyw ychydig o eiriau fel: “Roedd yr haid yma o ysbrydion, chwe Dan Ddu -”

A bydden nhw’n dweud: “Wyt ti o *ddifri*?” Wel, beth ddywedech chi?



Weithiau dwi'n amau'r cyfan fy hunan. P'un a welais i'r hyn y credais i fi ei weld. Mae Dan Ddu a finnau wedi chwilio pob llwybr yn y goedwig honno. Dyn ni wedi gweld gwiwerod a cheirw cochion a phiød glas. Ond dyn ni erioed wedi gweld fflach o gynffon ysbryd ci.



Trwsiodd Dad y grid dros fynedfa'r gweithfeydd fel na allai neb fynd i mewn. Craffais drwyddo unwaith. A doedd dim byd yn y twnel. Dim ond rhedyn a dŵr yn diferu.

Ond unwaith, yn y nos, meddyliais i fi glywed udo, o bell, pell i ffwrdd. Yna gwrandawais eto. Yna penderfynais: “Na, dim ond y gwynt oedd e.” Ac unwaith agorais lenni fy ystafell wely. A meddyliais i fi weld dau lygad llosg yn fflachio yn y pellter.

Yna penderfynais, “Na, dim ond llwynog neu gwningen yw e.”

Yntê?



Am yr awdur

Dwi'n byw yn Swydd Durham. Un diwrnod roeddwn i'n cerdded o gwmpas y lonydd cefn gyda fy nhri phlentyn pan gwrddon ni â hen ddyn gyda'i filgi rasio. Meddai fy mab, "Beth yw ei enw?" A dywedodd yr hen ddyn, "Ei enw yw Dan Ddu. Dan Ddu yw enw pob un o fy nghŵn rasio." A dyna a roddodd fy meddwl ar waith. Dwi ddim yn hollol siwr sut yr ysgrifennais i'r stori ysbryd yma yn dilyn rhyw bwt o sgwrs mewn lôn gefn. Onid yw dychymyg yn beth rhyfeddol!



Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:

Pecyn A *Dial Capten Gwaed* gan Paul Shipton
Yr Anghenfil yn y Wardrob gan Paul Shipton
Dan Ddu gan Susan Gates
Ar Drywydd Stori gan Roger Stevens
Esgyrn! gan Paul Shipton
Y Gôli o 'Nunlle gan Alan MacDonald
Y Siarc Slei, Seintlyd gan Tessa Krailing

Pecyn B *Dwi Eisio, Dwi Eisio* gan Paul Shipton
Y Ffisig Ffrwydrol gan Alan MacDonald
Cyfrinach y Gôli gan Paul Shipton
Yn Gynt Na'r Gwynt! gan Paul Shipton
Aros am Aur gan Susan Gates
Y Bwci Bo! gan Michaela Morgan
Sgwad Swigyn gan Paul Shipton

DAN DDU

Edrychodd Rhodri ar y ci. Roedd e'n
fawr a mor ddu â'r nos.

“Plís, Dad, allwn ni ei gadw?”
crefodd Rhodri.

Roedd Rhodri yn caru ei gi newydd.
Ond roedd gan Dan Ddu gyfrinach
ryfedd ac ofnadwy. Fyddai e'n arwain
Rhodri i berygl?



ISBN 0-86174-503-5

DRAKE

ISBN 0-86174-503-5



Brig y Goeden



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 13